Troseddau hiliol a chrefyddol – polisi erlyn y CPS

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Yr hyn a olygwn gyda throseddau hiliol neu grefyddol	7
3	Mathau o droseddau	11
4	Rôl y CPS	19
5	Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	21
6	Penderfynu pa gyhuddiadau i'w herlyn	25
7	Mechnïaeth	27
8	Penderfynu pa dystiolaeth sy'n angenrheidiol i brofi'r achos	29
9	Helpu dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth	35
10	Derbyn pledion euog	41
11	Dedfrydu	43
12	Rhoi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd	47

⓭ **Monitro trosedd hiliol a chrefyddol** 49

⓮ **Ymwneud â'r gymuned** 51

⓯ **Cwynion** 53

⓰ **Casgliad** 55

Atodiad A

Deddfwriaeth a ddefnyddir i erlyn troseddau hiliol a chrefyddol 56

Atodiad B

Swyddogaethau'r Heddlu, y CPS a'r Llysoedd 62

Atodiad C

Mechnïaeth 63

Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol ar gyfer pobl sy'n wynebu troseddau hiliol a chrefyddol 66

1 Cyflwyniad

Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro'r ffordd y byddwn ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn delio ag achosion o droseddau hiliol a chrefyddol. Dyma'r ail argraffiad ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau yn y gyfraith a gweithdrefnau'r CPS ers cyhoeddi'r argraffiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2003.

Rydym yn cyhoeddi'r datganiad oherwydd ein bod eisiau i ddioddefwyr, tystion a'u teuluoedd, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol, fod yn hyderus bod y CPS yn deall natur ddifrifol y math hwn o drosedd a'r effeithiau real a pharhaol y gall eu cael, nid yn unig ar unigolion a'u teuluoedd, ond hefyd ar gymunedau a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Rydym eisiau i bobl wybod yr hyn y gallant ei ddisgwyl gennym pan fyddwn yn erlyn troseddau hiliol neu grefyddol, yn y gobaith y bydd hyn o gymorth iddynt fod â mwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

Wrth baratoi'r ail argraffiad hwn, rydym wedi ymgynghori â phobl o gymunedau Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ffydd a rhoesom ystyriaeth i'w sylwadau wrth ysgrifennu'r ddogfen hon. Mae eu cyfraniadau wedi ein cynorthwyo i ddeall yn well y pethau sy'n bwysig iddyn nhw ac y mae angen i ni wybod amdanynt wrth ddelio â throseddau hiliol a chrefyddol.

Mae troseddau hiliol a chrefyddol yn peri tramgwydd arbennig i ddioddefwyr gan eu bod yn cael eu targedu'n gyfan gwbl oherwydd

eu hunaniaeth bersonol, eu tarddiad hiliol neu ethnig gwirioneddol neu ymddangosiadol, eu credoau neu ffydd. Gall dioddefwyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fod yn dargedau oherwydd eu bod yn perthyn i grwpiau lleiafrifol eraill hefyd a gallant wynebu anffafriaeth o sawl tu.

Mae'r troseddau hyn yn gallu digwydd ar hap mewn tai bwyta neu safleoedd prydau parod, clybiau nos, gemau pêl-droed, wrth siopa, neu gallant fod yn rhan o ymgyrch o aflonyddu a fictimeiddio parhaus gan gymdogion, cwsmeriaid, grwpiau eithafol neu hyd yn oed gan aelodau o'r teulu. Weithiau gall y troseddau fod yn gyfuniad o'r pethau hyn – cymdogion yn aflonyddu neu gangiau trefnedig yn ymosod ar unigolion a'u cartref, neu ymosodiadau ar hap mewn mannau cyhoeddus.

Mae'r effaith ar ddioddefwyr yn wahanol i bob unigolyn, ond bydd llawer yn wynebu problemau tebyg. Gallant deimlo'n hynod unig gan ofni mynd allan neu hyd yn oed aros gartref. Gallant droi'n dawedog ac amheus o sefydliadau a dieithriaid. Gall eu hiechyd meddyliol a chorfforol ddioddef. O safbwynt pobl ifanc yn benodol, fe all yr effaith fod yn niweidiol i'w hunan-barch a'u hunaniaeth a, heb gefnogaeth, gall arwain at fath o hunangasineb o'u hunaniaeth hiliol neu grefyddol. Fe all pobl ifanc hefyd ddod i amau neu gasáu pobl eraill hefyd, o ganlyniad i ddioddef troseddau hiliol neu grefyddol.

Fe all y dryswch, yr ofn a'r diffyg diogelwch a deimlir gan ddioddefwyr y troseddau hyn dreiddio ymhellach at eu grŵp hiliol neu grefyddol yn y gymuned ehangach. Gall cymunedau deimlo eu bod yn cael eu fictimeiddio a'u bod yn agored i ragor o ymosodiadau.

Y rheswm i ni benderfynu cyhoeddi'r datganiad polisi hwn yw fod canlyniadau troseddau fel hyn yn gallu bod mor bellgyrhaeddol, ac mae'n egluro:

- yr hyn a olygwn gyda throseddau hiliol a chrefyddol;
- y troseddau a sut mae'r gyfraith yn gweithio;
- ein rôl a ble'r ydym yn perthyn yn y system cyfiawnder troseddol;
- ein cyfrifoldeb tuag at ddioddefwyr a thystion;
- hawliau diffynyddion; a
- sut byddwn yn monitro achosion o droseddau hiliol a chrefyddol.

Er y bydd y ddogfen o ddiddordeb arbennig i bobl y mae troseddau hiliol neu grefyddol yn effeithio arnynt, bwriadwn hefyd iddi fod yn ddatganiad clir o'n polisi i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ein polisi yw erlyn troseddau hiliol a chrefyddol yn deg, yn gadarn a grymus.

Cefnogir y ddogfen hon gan ganllawiau manylach ar gyfer holl erlynwyr a gweithwyr achosion penodol y CPS fel eu bod yn deall y polisi yn iawn a sut byddwn yn delio â'r math hwn o drosedd. Byddwn yn rhannu'r canllawiau gydag eraill sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn iddynt allu cyfrannu at weithredu'r polisi. Mae'r canllawiau ar gael yn gyhoeddus.

Mae ein holl staff wedi derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o hil ac amrywiaeth. Rydym hefyd wedi cynllunio cwrs hyfforddiant ar gyfer ein herlynwyr a'n gweithwyr achosion penodol i'w cynorthwyo i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o droseddau hiliol a chrefyddol, a'u cynorthwyo i wneud y penderfyniadau cywir mewn gwaith achos penodol. Bellach, fe gafodd yr hyfforddiant hwn ei roi i erlynwyr a gweithwyr achosion penodol ar hyd a lled Cymru a Lloegr, tra bo erlynwyr a gweithwyr achosion penodol sydd newydd eu recriwtio yn cael eu hyfforddi fel rhan o raglen dreigl barhaus. Bu cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd yn cyfrannu at gynllun y cwrs ar droseddau hiliol a chrefyddol.

2 Yr hyn a olygwn gyda throseddau hiliol neu grefyddol

Digwyddiadau hiliol neu grefyddol

Cyhoeddwyd Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence ym mis Chwefror 1999, ac roedd yn diffinio digwyddiad hiliol fel:

> *"... unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw un arall yn ei ystyried yn hiliol."*

Rydym yn derbyn y diffiniad hwn.

Rydym yn diffinio digwyddiad crefyddol fel:

> *"Unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw un arall yn credu iddo gael ei ysgogi oherwydd crefydd neu grefydd canfyddedig yr unigolyn".*

Mae'r ddau ddiffiniad yn ein cynorthwyo i adnabod pob digwyddiad hiliol neu grefyddol ar ein ffeiliau achosion er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i'r elfen hiliol neu grefyddol wrth wneud penderfyniadau am erlyn.

Nid yw pob digwyddiad hiliol neu grefyddol yn drosedd. Hefyd, hyd yn oed os yw digwyddiad yn drosedd, mae'n bosib na fydd erlyniad oherwydd:

- efallai na fydd digon o dystiolaeth i ganiatáu i'r achos gael ei erlyn o gwbl;

- a hyd yn oed os oes digon o dystiolaeth i erlyn trosedd, mae'n bosib na fydd digon o dystiolaeth i erlyn trosedd hiliol neu grefyddol penodol neu i brofi bod elfen hiliol neu grefyddol yn gwneud y trosedd yn un gwaethygol.

Er mwyn ein cynorthwyo i benderfynu a yw digwyddiad hiliol neu grefyddol yn drosedd ac a oes digon o dystiolaeth i erlyn yr achos, byddwn yn defnyddio'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Byddwn yn egluro'r Côd ym mharagraff 5, yn ddiweddarach yn y datganiad hwn.

Trosedd hiliol neu grefyddol

Trosedd yw hwn ble mae'n rhaid i'r erlynydd brofi elfen hiliol neu grefyddol fel rhan o'r trosedd ei hun, neu ble mae'r gyfraith yn caniatáu i'r erlynydd gyflwyno'r dystiolaeth honno gerbron y llys wrth i droseddwr gael ei ddedfrydu.

Nid oes un trosedd penodol y gellir ei alw'n 'drosedd hiliol' neu 'drosedd crefyddol'. Y mae nifer o wahanol droseddau ble mae'n rhaid i ni brofi elfen hiliol neu grefyddol cyn i'r sawl a gyhuddir gael ei ddyfarnu'n euog. Enghraifft o hyn yw siantio hiliol mewn gêm bêl-droed.

Ar wahân i'r troseddau ble mae'n rhaid i ni allu profi elfen hiliol neu grefyddol, mae'n ddyletswydd ar y llysoedd troseddau i drin unrhyw drosedd yn fwy difrifol ble mae tystiolaeth bod y sawl a gyhuddir wedi dangos gelyniaeth, neu wedi'i ysgogi gan elyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd bod y dioddefwr yn aelod o grŵp hil neu grefydd.

Grŵp hil – mae hyn yn golygu unrhyw grŵp o bobl sy'n cael eu diffinio trwy gyfeirio at eu hil, lliw, cenedl (gan gynnwys

dinasyddiaeth) neu darddiad ethnig neu genedlaethol. Gallai hyn gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, ffoaduriaid, neu geiswyr lloches neu eraill o leiafrifoedd llai amlwg. Cafwyd dyfarniad cyfreithiol bod Iddewon a Siciaid yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o grŵp hil.

Grŵp crefydd – mae hyn yn golygu unrhyw grŵp o bobl sy'n cael eu diffinio trwy gyfeirio at eu cred grefyddol neu ddiffyg cred grefyddol. Er enghraifft mae hyn yn cynnwys Moslemiaid, Hindwiaid a Christnogion, a gwahanol enwadau a changhennau o fewn y crefyddau hynny. Fe fyddai hefyd yn cynnwys pobl heb gred grefyddol o gwbl.

3 Mathau o droseddau

Ar gyfer rhai troseddau mae'n rhaid i ni brofi elfen hiliol neu grefyddol cyn y gall y sawl a gyhuddir gael ei ddyfarnu'n euog. Byddwn yn egluro'r troseddau hyn, ynghyd â'r dedfrydau y gall y llys eu rhoi, yn **Atodiad A**.

Troseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol

Gyda rhai troseddau gellir cyhuddo rhywun o droseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol.

Ar gyfer y troseddau hyn rhaid i ni brofi yn gyntaf fod y troseddwr wedi cyflawni un o'r troseddau **sylfaenol** ac yna rhaid i ni brofi bod y trosedd yn un **gwaethygol** oherwydd elfen hiliol neu grefyddol.

Ymhlith y troseddau **sylfaenol** y gellir cyhuddo pobl ohonynt y mae troseddau ymosod neu glwyfo, aflonyddu, difrod a throseddau trefn gyhoeddus megis achosi i bobl ofni trais neu aflonyddu. Gellir rhoi dedfrydau mwy difrifol pan fydd y troseddau hyn yn cael eu cyhuddo'n benodol fel troseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol.

Gallwn brofi bod trosedd yn un gwaethygol yn hiliol neu grefyddol mewn un o ddwy ffordd. Rhaid i ni brofi bod y sawl a gyhuddir:

- un ai wedi dangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd bod y dioddefwr yn perthyn neu y credid ei fod yn perthyn i grŵp hil neu grefydd penodol – er enghraifft, defnyddio iaith hiliol neu grefyddol ddifrïol wrth ymosod ar rywun; neu

- wedi'i ysgogi gan elyniaeth tuag at y dioddefwr am yr un rhesymau – er enghraifft y sawl a gyhuddir yn cyfaddef wrth yr heddlu iddo daflu bricsen trwy ffenestr siop Asiad oherwydd ei fod yn casáu pobl Asiaidd.

Y mae hi bob amser yn anodd profi cymhelliad a bydd y rhan fwyaf o erlyniadau yn deillio o weithredoedd gelyniaethus gan y sawl a gyhuddir tuag at y dioddefwr.

Ysgogi casineb hiliol

Cyflawnir y trosedd hwn pan fydd y sawl a gyhuddir yn dweud neu'n gwneud rhywbeth sy'n fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus a, thrwy wneud hynny, naill ai'n bwriadu ysgogi casineb hiliol, neu'n ei gwneud hi'n debygol y bydd casineb hiliol yn cael ei ysgogi. Gall hyn gynnwys pethau fel gwneud araith, arddangos poster hiliol, cyhoeddi deunydd ysgrifenedig, perfformio drama neu ddarlledu rhywbeth yn y cyfryngau.

Un o'r pethau cyntaf y mae'n rhaid i ni ei brofi ar gyfer y trosedd hwn yw a yw'r ymddygiad yn fygythiol, yn ddifrïol neu'n sarhaus. Rhoddir eu hystyr arferol i'r geiriau hyn ond mae'r llysoedd wedi dyfarnu y gall ymddygiad fod yn annifyr, yn anghwrtais neu hyd yn oed yn gas heb fod yn sarhaus, o anghenraid.

Rhaid i ni ystyried hefyd a oedd y troseddwr yn bwriadu ysgogi *casineb* hiliol ynteu a oedd casineb hiliol yn debygol o ddigwydd o ganlyniad. Mae casineb yn emosiwn cryf iawn. Mae'n bosib nad yw ysgogi tensiwn hiliol, gwrthwynebiad neu hyd yn oed elyniaeth o anghenraid yn ddigon i gyfrif fel trosedd.

Weithiau fe all fod yn amlwg bod unigolyn yn bwriadu achosi casineb hiliol, er enghraifft, pan fydd unigolyn yn gwneud araith gyhoeddus yn condemnio grŵp o bobl oherwydd eu hil gan fynd ati'n fwriadol i annog eraill i droi yn eu herbyn ac o bosib gyflawni gweithredoedd treisgar. Fel arfer, fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth mor eglur ac mae'n bosib y bydd raid i ni ddibynnu ar weithredoedd pobl er mwyn profi eu bwriadau.

Os na allwn brofi bod rhywun yn bwriadu ysgogi casineb hiliol, rhaid i ni ddangos, yn yr holl amgylchiadau, fod casineb yn *debygol* o gael ei ysgogi. Nid yw 'tebygol' yn golygu bod casineb hiliol yn bosib yn unig. Felly, rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar gyd-destun unrhyw ymddygiad, yn enwedig y gynulleidfa debygol, gan y bydd hyn yn hynod berthnasol.

Mae'r troseddau hyn yn ymddangos yn Neddf Trefn Gyhoeddus 1986, sydd wedi'i chynllunio'n gyffredinol i atal gweithredoedd o drais, anhrefn, niwed neu fygythiadau. Er y bydd yn aml yn bresennol, nid yw'r risg o gyflawni gweithred droseddol o'r natur hon yn hanfodol er mwyn profi y cyflawnwyd trosedd o ysgogi casineb ar sail hil.

Pan fydd pobl yn casáu pobl eraill oherwydd hil, gall casineb o'r fath ddod i'r amlwg trwy gyflawni troseddau a ysgogir gan gasineb, neu drwy fwrw sen, gwahaniaethu neu ragfarn. Bydd adweithiau o'r fath yn amrywio o berson i berson, ond mae casineb o bob math yn cael effaith niweidiol ar ddioddefwyr unigol a chymdeithas, ac mae hyn yn ffactor perthnasol i'w gymryd i ystyriaeth wrth ystyried a yw erlyniad yn briodol.

Mae'n hanfodol mewn cymdeithas rydd, ddemocrataidd a goddefgar fod pobl yn gallu cyfnewid barn yn gadarn, hyd yn oed safbwyntiau sy'n debygol o beri tramgwydd. Ond, rhaid i ni gydbwyso hawliau'r unigolyn i gael rhyddid mynegiant yn erbyn dyletswydd y wladwriaeth i weithredu'n gyfatebol er budd diogelwch y cyhoedd, atal anhrefn a throsedd, ac amddiffyn hawliau pobl eraill.

Gan fod yr holl benderfyniadau hyn yn codi cwestiynau sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus, bydd tîm arbenigol o gyfreithyddion ym Mhencadlys y CPS yn adolygu ffeil yr heddlu ym mhob achos o'r fath ac yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth. Yn ychwanegol, ni ellir dwyn unrhyw achos o ysgogi casineb hiliol heb ganiatâd y Twrnai Cyffredinol, sef uwch Swyddog Cyfraith y Goron.

Nid yw'r gyfraith ond yn cwmpasu gweithredoedd sy'n bwriadu neu sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol. Mae diffiniad yr hyn sy'n golygu "hil" neu "hiliol" yn eang; er hynny, mae'n glir nad yw'n cwmpasu casineb "crefyddol".

Ysgogi casineb crefyddol

Y mae'r Senedd wedi creu trosedd casineb crefyddol, a daeth i rym ar 1 Hydref 2007. Ond, mae'r ddeddf hon yn wahanol iawn i'r ddeddf casineb hiliol sydd eisoes ar y llyfrau statud o ran ei bod yn rhoi sylw i eiriau neu ymddygiad *bygythiol* yn unig (nid sarhad na difrïo) ac nid yw ond yn rhoi sylw i eiriau neu ymddygiad o'r fath sy'n mynd ati'n *fwriadol* i ysgogi casineb crefyddol (nid yr hyn sy'n debygol o ysgogi casineb).

Felly nid yw ymddygiad ymosodol neu sarhaus gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol yn drosedd dan y ddeddfwriaeth, na geiriau bygythiol sy'n debygol o ysgogi casineb crefyddol.

Mae'r ddeddf newydd yn amddiffyn rhyddid mynegiant, sy'n golygu na ellir ei defnyddio i wahardd na chyfyngu ar drafodaeth, beirniadaeth, gelyniaeth, atgasedd, gwawd, sarhad na difrïo crefydd na'i chredoau na'i harferion.

Felly fe fydd yn anos erlyn am ysgogi casineb crefyddol o gymharu â chasineb hiliol (ble mae'r safon eisoes yn briodol o uchel).

Y mae'n ofynnol cael caniatâd y Twrnai Cyffredinol i erlyn y trosedd hwn ac ymdrinnir â hyn dan yr un trefniadau â throseddau ysgogi casineb hiliol.

Siantio hilyddol mewn gemau pêl-droed

Mae miliynau o bobl yn dilyn hynt a helynt pêl-droed a llawer yn mynychu gemau byw yn ystod y tymor. Er bod problem siantio hiliol torfol yn llawer llai cyffredin nag y bu, y mae problemau o hyd gyda sen ac aflonyddu hiliol o fewn pêl-droed.

Mae trosedd siantio hilyddol yn cael ei gyflawni pan fydd unigolyn neu grŵp o bobl yn mynd ati, drosodd a throsodd, i yngan geiriau neu seiniau o natur hilyddol mewn gêm bêl-droed benodedig a ddiffinnir fel gêm rhwng timau o'r Uwchgynghrair, y Gynghrair Bêl-droed neu Gynghrair Conference. Mae "hilyddol" yn golygu'r un peth â "hiliol".

Os bydd unigolyn yn cael ei ddyfarnu'n euog, gellir rhoi dirwy iddo ac, ar ben hynny, ei wahardd rhag mynychu gemau pêl-droed yn y wlad hon a thramor.

Er mai bwriad y trosedd hwn yw ymdrin ag ymddygiad hiliol penodol o fewn i feysydd pêl-droed, ac nad yw'n gymwys yn benodol i siantio o natur grefyddol, nid dyma'r unig ffordd y gallwn fynd i'r afael â throseddau hiliol neu grefyddol.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai fod yn fwy priodol ymdrin â throseddau hiliol neu grefyddol sy'n gysylltiedig â phêl-droed gan ddefnyddio deddfwriaeth arall, megis troseddau trefn gyhoeddus gwaethygol hiliol neu grefyddol. Er enghraifft:

- pan gyflawnir y trosedd y tu allan i'r stadiwm adeg gêm bêl-droed benodedig;
- os cyflawnir trosedd trefn gyhoeddus ble dangosir gelyniaeth grefyddol yn hytrach na gelyniaeth hiliol tuag at y dioddefwr;

- mewn gemau pêl-droed amhenodedig, megis gemau amatur;

Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i droseddau hiliol neu grefyddol a gyflawnir yng nghyd-destun gemau pêl-droed er mwyn sicrhau ein bod yn erlyn trosedd (neu droseddau) sydd orau am adlewyrchu ymddygiad y troseddwr ac sy'n caniatáu i'r llys roi ystyriaeth i unrhyw elyniaeth neu symbyliad hiliol neu grefyddol.

Troseddau crefyddol eraill

Yn ogystal â'r troseddau gwaethygol crefyddol, y mae troseddau crefyddol eraill y gellir eu herlyn.

Ystyr **cabledd** yw ymosodiad ar y ffydd Gristnogol, un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn ffordd sy'n debygol o roi braw neu ddigio teimladau'r rhan fwyaf o gredinwyr Cristnogol. Er hynny, mae rhwydd hynt i bobl fynegi safbwyntiau gwrth-grefyddol ar yr amod eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd resymol. O ganlyniad, dim ond un erlyniad a gafwyd yn y 80 mlynedd diwethaf. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw achos a gyfeirir atom am gyngor gan wneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

Ymhlith rhai o'r troseddau crefyddol eraill y gellir eu herlyn y mae:

- ymddygiad treisgar neu anweddus mewn mannau addoli;
- ymosod ar weinidogion neu eu hatal rhag gweinyddu mewn gwasanaethau crefyddol;
- achosi aflonyddwch mewn mynwentydd; ac
- amharu neu atal claddedigaethau.

Mae'r rhan fwyaf o'r troseddau hyn yn ymddangos mewn Deddfau Seneddol hen iawn ac anaml y cânt eu defnyddio oherwydd bod modd delio â'r ymddygiad troseddol a gwmpasir ganddynt trwy gyhuddo pobl o droseddau eraill sy'n fwy cyfarwydd a ble mae'r cosbau'n uwch hefyd. Yn wahanol i gabledd, fe all y troseddau yn y rhestr uchod gael eu cyflawni yn erbyn pob ffydd a'u mannau addoli neu gladdu.

Rhoi ystyriaeth i'r elfen hiliol neu grefyddol ym mhob trosedd arall

Pan na fydd rhywun yn cael ei gyhuddo o drosedd sy'n drosedd gwaethygol hiliol neu grefyddol yn benodol, neu un o'r troseddau eraill a ddisgrifir uchod, nid yw'n golygu y bydd yr elfen hiliol neu grefyddol yn cael ei hanwybyddu. Rhaid i'r llys roi ystyriaeth i dystiolaeth o elfennau gwaethygol hiliol neu grefyddol mewn unrhyw achos nad yw'n cael ei gyhuddo fel trosedd gwaethygol hiliol neu grefyddol yn ei rinwedd ei hun.

Er enghraifft, os bydd rhywun yn neidio allan o dacsi sy'n cael ei yrru gan yrrwr tacsi Asiaidd ac yn rhedeg i ffwrdd heb dalu, mae'r unigolyn hwnnw'n cyflawni trosedd "mynd ymaith heb dalu". Os bydd yr unigolyn hwnnw'n gwneud sylwadau'r un pryd am bobl Asiaidd gan awgrymu bod cymhelliad hiliol dros beidio â thalu, ni ellir cyhuddo'r trosedd yn drosedd gwaethygol hiliol. Y rheswm am hyn yw nad yw "mynd ymaith heb dalu" yn un o'r troseddau "sylfaenol" y mae'r gyfraith yn caniatáu i ni eu cyhuddo'n benodol fel trosedd gwaethygol hiliol.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod yr elfen hiliol yn cael ei hanwybyddu. Yn y sefyllfa hon, rhaid i ni sicrhau bod y llys yn cael clywed am y sylwadau gan ddadlau, o ganlyniad iddynt, bod y trosedd yn un wedi'i ysgogi gan hil. Os bydd y llys yn derbyn hyn, byddai'n rhaid iddo roi cosb uwch.

Pan fydd troseddwr wedi'i ddyfarnu'n euog a'r llys yn penderfynu pa ddedfryd i'w rhoi, dylai'r llys drin tystiolaeth o elfen waethygol hiliol neu grefyddol fel rhywbeth sy'n gwneud y trosedd yn fwy difrifol. Rhaid i'r llys ddatgan y ffaith honno yn agored fel bod pawb yn gwybod bod y trosedd yn cael ei drin yn fwy difrifol oherwydd yr elfen waethygol hiliol neu grefyddol.

4 Rôl y CPS

Mae'r CPS yn un rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys sefydliadau eraill fel yr heddlu, y llysoedd, cyfreithyddion yr amddiffyniad, y Gwasanaeth Prawf, Timau Troseddwyr Ifanc (YOT), y Gwasanaeth Tystion a Gwasanaeth y Carcharau. Rydym wedi crynhoi prif rolau'r heddlu, y CPS a'r llysoedd yn y diagram yn **Atodiad B**.

Rydym yn wasanaeth cyhoeddus dros Gymru a Lloegr, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Cawsom ein sefydlu yn 1986 er mwyn erlyn achosion a ymchwilir gan yr heddlu. Er ein bod yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, rydym yn annibynnol arnynt. Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Twrnai Cyffredinol, sef uwch Swyddog Cyfraith y Goron sydd hefyd yn un o Weinidogion y Llywodraeth.

Rydym yn sefydliad cenedlaethol sy'n cynnwys 42 Rhanbarth. Mae pob Rhanbarth dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron ac mae'n cyfateb i un o ranbarthau'r heddlu, gydag un Rhanbarth ar gyfer Llundain. Erbyn hyn mae'r 42 Rhanbarth mewn grwpiau o 14 Bwrdd Strategol, ac eithrio CPS Llundain, sydd â'i dîm rheoli ei hun, dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron Llundain. Mae pob Bwrdd Strategol yn cael ei arwain gan Brif Erlynydd y Goron sy'n Gadeirydd Grŵp.

5 Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

Mae'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn disgrifio sut byddwn yn gwneud penderfyniadau o ran erlyn ai peidio. Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Byddwn yn adolygu'r achosion y bydd yr heddlu'n eu cyfeirio atom yn unol â'r prawf a ddisgrifir yn y Côd. Mae'r prawf yn cynnwys dau gam.

Y prawf tystiolaethol

Yn gyntaf oll, rhaid i ni fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Mae'n golygu y byddai rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun, a dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig.

Er mwyn dyfarnu rhywun yn euog, rhaid i ni brofi'r achos fel bod y llys yn sicr bod y diffynnydd yn euog.

Os nad yw'r achos yn pasio'r prawf cyntaf (y prawf tystiolaethol) ar sail cryfder y dystiolaeth, rhaid peidio â bwrw ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol yw'r achos. Rydym wedi egluro eisoes na fydd pob achos sy'n bodloni'r diffiniad o ddigwyddiad hiliol/crefyddol o anghenraid yn cael ei erlyn. Mae'n bosib na fydd digon o dystiolaeth i ni fod yn fodlon y bydd llys yn debygol o ddyfarnu'r diffynnydd yn euog.

Prawf budd y cyhoedd

Os yw'r achos yn bodloni'r prawf tystiolaethol, rhaid i ni benderfynu wedyn a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Bydd erlyniad yn digwydd fel arfer oni bai fod "ffactorau budd y cyhoedd yn gogwyddo yn erbyn erlyn sy'n amlwg yn fwy na'r ffactorau o'i blaid".

Wrth ystyried prawf budd y cyhoedd, un o'r ffactorau y dylai Erlynwyr y Goron bob amser ei ystyried yw "canlyniadau'r penderfyniad i erlyn ai peidio ar y dioddefwr; ac unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr neu deulu'r dioddefwr". Byddwn bob amser yn meddwl yn ofalus am fuddiannau'r dioddefwr wrth benderfynu beth yw budd y cyhoedd. Ond fe fyddwn yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd ac nid er budd unrhyw unigolyn penodol. Gall fod yn anodd taro ar y cydbwysedd cywir. Mae barn a buddiannau'r dioddefwr yn bwysig, ond nid dyma'r gair olaf o ran penderfyniad y CPS i erlyn.

Rydym yn ystyried bod unrhyw drosedd sydd wedi'i ysgogi gan elyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd tarddiad ethnig neu genedlaethol neu gredoau crefyddol y dioddefwr yn fwy difrifol. Hefyd, rydym yn ymwybodol bod hyd yn oed troseddau hiliol neu grefyddol cymharol fach yn gallu cael effaith anghymesur fawr ar ddioddefwyr unigol. O ganlyniad, mewn achosion o droseddau casineb hiliol a chrefyddol a gyfeirir atom, fe fydd budd y cyhoedd bron bob tro o blaid erlyn.

Dyma rai ffactorau budd y cyhoedd eraill y byddwn yn eu hystyried:

- pa mor ddifrifol yw'r trosedd;
- niweidiau'r dioddefwr – boed gorfforol a/neu seicolegol;
- a wnaeth y diffynnydd ddefnyddio arf;
- a yw'r diffynnydd wedi gwneud unrhyw fygythiadau, cyn neu ar ôl yr ymosodiad;
- a oedd y diffynnydd wedi cynllunio'r ymosodiad;
- y tebygolrwydd y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;

- y bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r sefyllfa, neu a allai ddod yn rhan ohoni;
- perthynas y dioddefwr gyda'r diffynnydd;
- cefndir troseddol y diffynnydd, yn enwedig unrhyw droseddau blaenorol yn erbyn pobl agored i niwed.

Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Mae copïau ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS, 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX neu gan swyddfeydd lleol y CPS, neu oddi ar ein gwefan:

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html

6 Penderfynu pa gyhuddiadau i'w herlyn

Rhaid i ni ddewis cyhuddiadau sy'n gweddu i amgylchiadau'r achos ac sy'n caniatáu i'r llys roi dedfryd addas. Rhaid i'r cyhuddiadau ein cynorthwyo hefyd i gyflwyno'r achos yn glir a syml.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gan ddibynnu ar y math o gyhuddiad sy'n cael ei erlyn, rhaid i ni gynnwys cyhuddiad ar gyfer y trosedd sylfaenol hefyd, felly os na phrofir rhan hiliol neu grefyddol y cyhuddiad, fe fydd hi'n dal yn bosib i'r llys ddyfarnu'r sawl a gyhuddir yn euog o gyflawni'r trosedd sylfaenol. Pan fyddwn yn gwneud hyn, nid yw'n golygu ein bod yn gwahodd y sawl a gyhuddir i bledio'n euog i'r trosedd sylfaenol yn unig, ac nid yw'n golygu chwaith ein bod yn meddwl bod yr achos yn un gwan.

Er 2004, buom yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) a ddylid cyhuddo'r sawl a amheuir o gyflawni trosedd, ac, os felly, pa gyhuddiad(au) y dylid eu dewis. Pan fydd yr heddlu ag amheuaeth resymol bod y sawl a amheuir wedi cyflawni trosedd sy'n waethygol hiliol neu grefyddol, mae'n *rhaid* iddynt gyfeirio'r achos hwnnw at Erlynydd y Goron, a fydd yn penderfynu a ddylid dwyn cyhuddiad ai peidio .

7 Mechnïaeth

Ar ôl i unigolyn gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, bydd yr heddlu yn penderfynu a ddylai'r unigolyn gael ei ryddhau ar fechnïaeth i fynychu'r gwrandawiad llys nesaf a fydd ar gael (fel arfer o fewn dau i bum niwrnod o'r cyhuddiad), neu'n cadw'r unigolyn yn y ddalfa i ymddangos gerbron y llys ynadon y diwrnod hwnnw neu drannoeth. Unwaith y bydd y sawl a gyhuddir yn ymddangos gerbron y llys, bydd yr ynadon yn penderfynu ynghylch mechnïaeth ar ôl gwrando ar yr erlyniad a'r amddiffyniad. Gallwn apelio, dan rai amgylchiadau, yn erbyn penderfyniad i ganiatáu mechnïaeth.

Er mwyn amddiffyn dioddefwyr neu dystion rhag perygl, bygythiadau, pwysau neu weithredoedd eraill gan y sawl a gyhuddir a allai rwystro cwrs cyfiawnder, gallwn ofyn i'r llys osod amodau ar fechnïaeth y sawl a gyhuddir, neu gallwn ofyn i'r llys gadw'r sawl a gyhuddir yn y ddalfa. Ni fydd y llys yn cytuno oni bai ei fod yn fodlon bod sail dros wrthod mechnïaeth.

Ymhlith yr amodau y gall y llys eu rhoi y mae gofynion i beidio â mynd yn agos at unrhyw unigolyn a enwir neu i gadw draw o ardal arbennig. Wrth wneud ein penderfyniadau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth a gawn gan yr heddlu ynghylch ofnau dioddefwr neu dyst am aflonyddu neu droseddu ailadroddus. Mae enghreifftiau cyffredin o amodau mechnïaeth i'w gweld yn **Atodiad C**.

Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i sicrhau bod y dioddefwr neu'r tyst yn cael gwybod, un ai gan yr heddlu neu gennym ni, am unrhyw newid yn amodau mechnïaeth y sawl a gyhuddir neu a yw yn y ddalfa ai peidio.

8 Penderfynu pa dystiolaeth sy'n angenrheidiol i brofi'r achos

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu er mwyn sicrhau bod ymchwiliad yr heddlu wedi bod yn drylwyr a bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael wedi'i chasglu a'i dwyn i'n sylw ni. Mewn rhai achosion, gallwn gynghori'r heddlu i ddilyn ambell drywydd posib arall yn eu hymchwiliadau. Gallai hyn gynnwys edrych ar ddigwyddiadau hysbys blaenorol sy'n ymwneud â'r un dioddefwr, neu'r un unigolyn a amheuir, neu'r un lleoliad. Ym mhob achos, fe ddylai erlynwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog yn yr achos er mwyn sicrhau bod pob darn o dystiolaeth sydd ar gael wedi'i gasglu a'i anfon at y CPS fel y gallwn adolygu'r achos yn llawn. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig os yw'n sefyllfa lle bu fictimeiddio drosodd a throsodd.

Byddwn yn ystyried y dystiolaeth yn ofalus a gwneud ein penderfyniadau mor gyflym â phosib. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod achosion yn symud trwy'r llys heb oedi.

Mewn llawer o droseddau hiliol neu grefyddol, yn aml iawn y dioddefwr yw'r unig dyst. Oni bai fod y diffynnydd yn pledio'n euog neu fod tystiolaeth gefnogol gref, mae'n gallu golygu y bydd angen i'r dioddefwr fel arfer roi tystiolaeth yn y llys.

Ni fyddwn yn cymryd yn ganiataol, fodd bynnag, mai dod â'r dioddefwr i'r llys i roi tystiolaeth yw'r unig ffordd o brofi achos. Byddwn yn ystyried ba dystiolaeth arall a allai fod ar gael, un ai i gefnogi tystiolaeth y dioddefwr, neu fel dewis arall yn hytrach na thystiolaeth y dioddefwr.

Pan fydd dioddefwr yn tynnu cwyn yn ôl neu ddim yn awyddus bellach i roi tystiolaeth

Weithiau gall dioddefwr roi'r gorau i gefnogi erlyniad a phenderfynu nad yw bellach yn dymuno rhoi tystiolaeth. Nid yw hyn yn golygu y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig. Os yw'r dioddefwr wedi penderfynu tynnu'n ôl rhag cefnogi'r erlyniad, rhaid i ni ddod i wybod pam. Gall hyn olygu gohirio'r gwrandawiad llys er mwyn ymchwilio i'r ffeithiau a phenderfynu beth ddylid ei wneud am y gorau.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- os bydd y dioddefwr yn penderfynu tynnu ei gefnogaeth yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu gymryd datganiad ysgrifenedig gan y dioddefwr i egluro'r rhesymau dros wneud hynny, i gadarnhau bod y gŵyn wreiddiol yn wir a dod i wybod a roddwyd unrhyw bwysau ar y dioddefwr i dynnu ei gefnogaeth yn ôl; a
- byddwn yn gofyn i'r heddlu am eu barn ynghylch y dystiolaeth yn yr achos a beth yn eu barn nhw fyddai ymateb y dioddefwr petai'n cael ei orfodi i fynychu'r llys.

Os bydd datganiad y dioddefwr, ar ôl tynnu'r gŵyn yn ôl, yn wahanol i'r datganiad cynharach, byddwn yn disgwyl i'r heddlu ofyn i'r dioddefwr egluro pam ei fod wedi newid.

Os bydd y dioddefwr yn cadarnhau bod y gŵyn wreiddiol yn wir, byddwn yn ystyried yn gyntaf a yw'n bosib parhau i erlyn heb ei dystiolaeth ef neu hi (y prawf tystiolaethol) ac yna, os yw'n **bosib**, a ddylem barhau â'r achos heb gefnogaeth y dioddefwr/yn groes i ddymuniad y dioddefwr (prawf budd y cyhoedd).

Bydd ar yr erlynydd eisiau gwybod y rhesymau pam nad yw'r dioddefwr yn dymuno rhoi tystiolaeth bellach. Gydag achosion o droseddau hiliol neu grefyddol, efallai y bydd hyn oherwydd bod y dioddefwr yn byw yn rhywle ble bydd yn teimlo'n ynysig neu'n

arbennig o agored i niwed (ac rydym yn cydnabod y gallai teimlo'n ynysig neu'n arbennig o agored i niwed fod wedi atal y dioddefwr neu wneud iddo oedi cyn rhoi gwybod am y digwyddiad yn y lle cyntaf), ble gallai cefnogi'r erlyniad osod y dioddefwr mewn mwy o risg o niwed. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r erlynydd ystyried unrhyw fesurau arbennig neu gefnogaeth arall sydd ar gael i'r dioddefwr ac a allai ei gynorthwyo, yn rhannol o leiaf, i oresgyn ei bryderon.[1]

Os byddwn yn amau bod pwysau wedi'i roi ar y dioddefwr neu y cafodd ei ddychryn er mwyn tynnu'r gŵyn yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Mae'n bosib y bydd yr ymchwiliad yn datgelu troseddau newydd, er enghraifft, aflonyddu neu ddychryn tystion, neu fod amodau mechnïaeth wedi'u torri. Os bydd angen, byddwn yn gofyn i'r llys oedi unrhyw wrandawiad fel y gellir cynnal ymchwiliad trwyadl cyn i ni benderfynu ynghylch dyfodol yr achos. Os penderfynodd y dioddefwr neu'r tyst dynnu eu cwyn yn ôl am resymau yn seiliedig ar ofn neu ddychryn, bydd yr erlynydd yn ystyried y dystiolaeth honno a phenderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau pellach, er enghraifft dychryn tystion.

Byddwn yn archwilio'r holl ddewisiadau hyn yn llawn, cyn penderfynu bwrw ymlaen gydag erlyniad ai peidio. Bydd diogelwch y dioddefwr neu unrhyw berson arall a allai fod yn agored i niwed, yn un o'r prif ystyriaethau wrth i ni lunio ein penderfyniad.

Parhau ag achos yn groes i ddymuniad y dioddefwr

Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r trosedd (er enghraifft, oherwydd lefel y trais a ddefnyddiwyd neu'r bygythiad gwirioneddol a pharhaus i'r dioddefwr neu eraill) y mwyaf tebygol ydym ni o erlyn er budd y cyhoedd, hyd yn oed os yw'r dioddefwr yn dweud nad yw'n dymuno i ni wneud hynny.

[1] Addewid yr Erlynwyr: "Mynd i'r afael ag anghenion penodol dioddefwr a, lle bo cyfiawnhad dros hynny, ceisio sicrhau na ddatgelir pwy ydynt trwy wneud cais priodol i'r llys" ac mae'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, adran 7.8 yn datgan bod raid i erlynwyr y CPS ystyried ceisiadau am fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr a allai fod yn agored i niwed neu i gael eu dychryn.

Mewn rhai achosion, os oes gennym ddigon o dystiolaeth arall, gallwn barhau heb ddibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr o gwbl.

Os byddwn yn penderfynu y dylai'r achos fynd yn ei flaen a bod angen dibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr i brofi'r achos, mae'n rhaid i ni benderfynu:

- a ddylem wneud cais i'r llys am gael defnyddio datganiad y dioddefwr yn dystiolaeth heb i'r dioddefwr orfod rhoi tystiolaeth yn y llys;
- a allwn barhau â'r erlyniad gan helpu'r dioddefwr i fynychu'r llys trwy ddefnyddio mesurau arbennig; ac
- a ddylem orfodi'r dioddefwr i roi tystiolaeth yn bersonol yn y llys.

Mae gwybodaeth gefndir yn hanfodol er mwyn helpu erlynydd wneud y penderfyniad cywir ynghylch sut i fwrw ymlaen ag achos lle mae'r dioddefwr wedi tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn sy'n ein helpu i benderfynu beth yw budd y cyhoedd wrth fwrw ymlaen â throsedd gwaethygol hiliol neu grefyddol pan fydd y dioddefwr wedi rhoi'r gorau i gefnogi'r erlyniad:

- pa mor ddifrifol yw'r trosedd;
- niweidiau'r dioddefwr boed gorfforol neu seicolegol;
- a wnaeth y diffynnydd ddefnyddio arf;
- a yw'r diffynnydd wedi gwneud unrhyw fygythiadau, cyn neu ar ôl yr ymosodiad;
- a oedd y diffynnydd wedi cynllunio'r ymosodiad;
- y tebygolrwydd y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;
- y bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r sefyllfa, neu a allai ddod yn rhan ohoni;
- perthynas y dioddefwr gyda'r diffynnydd;
- cefndir troseddol y diffynnydd, yn enwedig unrhyw drais blaenorol ar sail hil neu grefydd; ac
- a yw'r trosedd yn gyffredin yn yr ardal ble cafodd ei gyflawni.

Ni fydd erlynydd yn galw ar ddioddefwr i roi tystiolaeth yn groes i'w ddymuniad ef neu hi oni bai ei fod yn fodlon, ar ôl ymgynghori â'r heddlu ac unrhyw gyfranogwr arall, fod gweithredu yn y fath fodd yn angenrheidiol.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn y llys heb alw'r dioddefwr i roi tystiolaeth lafar, ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig. Mater i'r llys yw penderfynu a fydd yn caniatáu hyn ai peidio ac ni fydd yn gwneud hynny oni bai y byddai hynny er budd cyfiawnder. Os mai'r dioddefwr yw'r unig dyst i'r trosedd, gall fod yn anodd bodloni'r llys y gweinyddir cyfiawnder pan na all yr amddiffyniad groesholi'r prif dyst yn yr achos.

Pan fydd yn rhaid i ddioddefwyr a thystion fynychu llys i roi tystiolaeth, rydym yn gwybod y byddant yn poeni ac y gallai fod arnynt angen cefnogaeth ymarferol neu emosiynol. Ym mharagraff 9 rydym yn egluro rhai o'r camau y gallwn eu cymryd i'w cynorthwyo i oresgyn eu hofnau a rhoi'r dystiolaeth orau bosib.

Gwybodaeth gefndir

Cymeriad drwg

Weithiau, oherwydd rheolau cyfreithiol yn ymwneud â thystiolaeth, ni ellir defnyddio gwybodaeth a allai awgrymu bod unigolyn yn euog o gyflawni trosedd yn y llys. Rhaid i ni gofio hyn wrth benderfynu a allwn fwrw ymlaen ag achos ai peidio.

Hyd yn oed os na ellir defnyddio gwybodaeth i brofi bod y diffynnydd yn euog, gall fod yn wybodaeth gefndir bwysig a fydd yn galluogi'r erlynydd i roi'r trosedd mewn cyd-destun. Efallai fod y dioddefwr, er enghraifft, wedi dioddef ymosodiadau niferus ac yn wynebu canlyniadau neilltuol, fel cael ei droi allan o'i gartref, os na fydd yr erlyniad yn parhau.

Mae'n bosib y bydd angen i rywfaint o wybodaeth ddod o ffynonellau fel Awdurdodau Tai, neu asiantaethau gwirfoddol. Rhaid i'r heddlu gasglu'r holl wybodaeth o'r fath a'i rhoi i erlynydd y CPS.

Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr

Ffynhonnell bwysig arall o wybodaeth ar gyfer yr erlynydd a'r llys yw Datganiad Personol y Dioddefwr. Datganiad a wneir gan y dioddefwr yw hwn, sy'n egluro effaith y trosedd ar ei fywyd ef neu hi.

Gall y dioddefwr ddewis gwneud datganiad o'r fath ai peidio ac fe'i gwahoddir i wneud hynny'n syth ar ôl gwneud datganiad tyst. Gellir gwneud Datganiad Personol y Dioddefwr unrhyw adeg, a fwy nag unwaith, cyn y treial. Po fwyaf o wybodaeth y mae'r datganiad yn ei gynnwys am effaith dymor hir y trosedd ar y dioddefwr, mwyaf defnyddiol y mae'n debygol o fod.

Mae Datganiad Personol y Dioddefwr yn caniatáu i'r erlynydd ddeall effeithiau'r trosedd a gall gynorthwyo wrth benderfynu ar y cyhuddiad cywir. Mae dioddefwyr yn cael dweud a oes ganddynt unrhyw bryderon petai'r sawl a gyhuddir yn cael ei roi ar fechnïaeth, a ydynt yn teimlo dan fygythiad neu'n ofnus ac a hoffent gael cefnogaeth gan un o'r asiantaethau gwirfoddol.

Os oes Datganiad Personol y Dioddefwr yn bodoli, byddwn yn rhoi gwybod i'r llys amdano er mwyn iddo allu helpu'r llys i wneud penderfyniadau am fechnïaeth a dedfrydu. Ym mharagraff 11 mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y defnyddir Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr yn ystod dedfrydu.

9 Helpu dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth

Byddwn yn ceisio rhoi ystyriaeth i agweddau sensitif yn ddiwylliannol a chrefyddol wrth erlyn achosion.

Byddwn yn darganfod cymaint â phosib am amgylchiadau'r tyst cyn gofyn i dyst ddod i'r llys, megis pa lyfr sanctaidd a fyddai'n briodol ar gyfer cymryd llw neu a yw'n well gan y tyst ddwys-haeru.

Wrth bennu dyddiadau gwrandawiadau neu apwyntiadau, byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i faterion fel gwyliau crefyddol.

Byddwn yn ceisio rhoi ystyriaeth i unrhyw agweddau sensitif yn ymwneud ag oedran, anabledd, tueddfryd rhywiol, rhywedd neu hunaniaeth o ran rhywedd er mwyn i dystion allu teimlo mor gyfforddus â phosib pan fyddant yn cwrdd â ni neu pan fyddant yn mynd i'r llys.

Mesurau arbennig

Dan rai amgylchiadau, gall y llys gytuno i ganiatáu i dyst roi tystiolaeth gyda chymorth "mesurau arbennig". Dylai'r angen am fesurau arbennig gael ei archwilio'n gyntaf gan yr heddlu, yna gan yr erlynydd. Mae'n bosib y bydd gan y Swyddog Gofal Tystion gyfraniad hefyd yn dilyn asesiad anghenion ond mater i'r llys fydd penderfynu a ddylid eu caniatáu. Mae'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau, adran 7.8, yn datgan bod yn rhaid i erlynwyr y CPS

ystyried ceisiadau am fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr a allent fod yn agored i niwed neu i gael eu dychryn ac a fyddant yn cael eu galw fel tystion i roi tystiolaeth.

Mae mesurau arbennig ar gael yn Llys y Goron ac yn y llysoedd ynadon. Maent ar gael i gynorthwyo'r tystion canlynol:

- plant dan 17 oed;
- oedolion (17 a throsodd) a allai gael eu hystyried yn agored i niwed oherwydd analluogrwydd, megis anhwylder corfforol neu feddyliol;[2] neu anabledd dysgu; a
- thystion y mae eu tystiolaeth yn debygol o ddioddef oherwydd eu bod wedi'u dychryn (er enghraifft, oherwydd eu bod yn ofnus neu'n gofidio am roi tystiolaeth).

Gall mesurau arbennig gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed neu wedi'u dychryn i roi eu tystiolaeth yn y ffordd orau bosib a chyda cyn lleied o bwysau arnynt â phosib.

Mae mesurau arbennig yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- chwarae recordiad fideo o ddatganiad y dioddefwr neu'r tyst i'r llys (wedi'i gymryd cynt gan yr heddlu yn ystod yr ymchwiliad);
- caniatáu defnyddio sgriniau yn ystafell y llys er mwyn rhwystro'r dioddefwr neu dystion eraill rhag gweld y diffynnydd;
- rhoi tystiolaeth draw oddi wrth ystafell y llys trwy gyfrwng cyswllt teledu byw (ond fe fydd hi'n dal yn bosib i'r diffynnydd eu gweld); a
- gwagio'r oriel gyhoeddus mewn achosion o droseddau rhyw neu achosion sy'n cynnwys dychryn.

Rhaid i ni ofyn i'r llys ganiatáu mesurau arbennig ac nid yw'n dilyn y bydd hynny'n cael ei ganiatáu.

[2] Mae hyn yn cynnwys rhywun sy'n byw gyda chyflwr arbennig a allai eu hatal rhag bwrw ymlaen ag erlyniad os yw'r ffaith honno yn mynd i gael ei chyhoeddi'n eang.

Rhaid i'r llys roi ystyriaeth i rai pethau wrth benderfynu caniatáu mesur arbennig ai peidio ar gyfer tyst. Yn eu plith mae:

- cefndir cymdeithasol a diwylliannol a tharddiad ethnig y tyst;
- credoau crefyddol y tyst; ac
- unrhyw ymddygiad tuag at y tyst gan y diffynnydd neu ei deulu neu ei gydnabod ef neu hi.

Rhaid i'r llys roi ystyriaeth hefyd i unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y tyst ynghylch y ffordd y mae ef neu hi yn dymuno rhoi tystiolaeth.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn a gall y llys roi ystyriaeth i unrhyw beth arall y mae'n credu y dylai ei ystyried.

Mae'n bwysig ein bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ar gael a allai ein helpu i wneud cais am fesurau arbennig ar gyfer tyst. Fel arfer, yr heddlu neu'r Swyddog Gofal Tystion fydd yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i ni. Weithiau mae'n bosib y cawn wybodaeth trwy gwrdd â'r tyst yn uniongyrchol.

Cyfarfod rhwng y CPS a dioddefwyr a thystion agored i niwed neu sy'n cael eu dychryn

Os byddwn yn penderfynu gwneud cais i'r llys am fesurau arbennig, byddwn yn gofyn i'r heddlu ddarganfod a fyddai'r tyst yn hoffi cwrdd â'r erlynydd.

Pwrpas cyfarfod o'r fath yw magu ymddiriedaeth a hyder a'n galluogi i roi sicrwydd i'r tyst y rhoddir ystyriaeth i'w anghenion. Fe fyddwn yn cynnig cyfarfod o'r fath hefyd os byddwn wedi penderfynu peidio â gwneud cais am fesurau arbennig, er mwyn gallu egluro'r penderfyniad hwnnw. Nid oes raid i'r tyst fynychu'r cyfarfod hwnnw ar ei ben ei hun. Gall ddod â phartner, perthynas, ffrind neu rywun arall i'w gefnogi. Er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda'r dioddefwr, efallai y bydd hi'n briodol trefnu bod cyfieithydd neu rywun tebyg yn mynychu'r cyfarfod. Lle bynnag y bo modd, bydd erlynydd y CPS yn

sicrhau bod yr adfocad a fydd yn cynnal y treial yn mynychu'r cyfarfod rhwng erlynydd y CPS a'r tyst. Bydd erlynydd y CPS yn cynnig ymweliad ymgyfarwyddo â'r llys i'r dioddefwr hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cyfarfodydd â thystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu dychryn yn y daflen "Tystion, Eich cyfarfod gydag Erlynydd y CPS". Mae'r daflen ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS, 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX, neu o'n gwefan:

http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/witnesseng.html

Bod yn ddienw

Mae llawer o ddioddefwyr a thystion yn pryderu am ddiogelwch personol, gan boeni'n arbennig y gallai manylion neu wybodaeth bersonol amdanynt ddod yn hysbys i'r cyhoedd a'u rhoi mewn mwy o berygl y bydd ymosod neu aflonyddu pellach yn digwydd.

Yn gyffredinol, un o egwyddorion sylfaenol ein system cyfiawnder troseddol yw fod hawl gan y rhai sy'n cael eu cyhuddo i wybod enw'r sawl sy'n eu cyhuddo. Bydd y rhan fwyaf o achosion cyfreithiol yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a bydd gwybodaeth am bwy yw'r tyst yn dod yn fater o gofnod cyhoeddus.

Ond, ni fydd cyfeiriadau'r tystion yn cael eu datgelu i'r diffynnydd ac, oni bai fod hynny eisoes yn hysbys (er enghraifft, pan fydd y trosedd wedi'i gyflawni gan gymydog) neu os bydd eu hangen ar gyfer y dystiolaeth, ni fyddant yn cael eu crybwyll yn yr achos cyfreithiol.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall y llys ganiatáu i dystion beidio â rhoi eu henw yn agored yn y llys. Un o'r ystyriaethau y bydd y llys yn rhoi sylw iddo yw hyn: a fyddai enwi tyst unigol yn gallu ei gwneud hi'n anos cael tystiolaeth gan dystion eraill mewn achosion tebyg yn y dyfodol.

Yn ôl y gyfraith, mae hawl gan ddioddefwyr troseddau rhywiol difrifol i fod yn ddienw yn y wasg, hyd yn oed os rhoddwyd eu henw yn y llys.

Mewn achosion eraill, mae gan y llys rym i wahardd y cyfryngau rhag rhoi manylion personol tyst os yw o'r farn bod ansawdd tystiolaeth neu gydweithrediad y tyst yn yr achos yn debygol o ddirywio oherwydd bod y tyst yn ofni cael ei adnabod fel tyst yn yr achos. Mae hawl gan gynrychiolwyr y cyfryngau i wrthwynebu gorchymyn llys sy'n gwahardd cyhoeddi'r wybodaeth hon, er budd gohebu agored.

Cefnogaeth i Ddioddefwyr a Thystion

Mae'r CPS yn llwyr ymroddedig i gymryd yr holl gamau ymarferol i helpu dioddefwyr a thystion drwy'r profiad o fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sef profiad anodd yn aml. Cydnabyddwn hefyd y gallai dioddefwyr troseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol fod yn gyndyn o roi gwybod am ddigwyddiadau oherwydd ofn neu ddiffyg ymddiriedaeth, neu oherwydd eu profiad blaenorol o'r rhai sy'n ymwneud â'r system honno.

Mae mentrau megis mesurau arbennig, cyfarfodydd rhwng y CPS a thystion agored i newid a rhai sy'n cael eu dychryn, a chreu Unedau Gofal Tystion un pwrpas wedi'u staffio gan bersonél y CPS a'r heddlu, oll wedi'u cynllunio i gynyddu hyder dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Y mae cefnogaeth ar gael hefyd o gam cynnar iawn yn y broses, gan yr heddlu ac asiantaethau cefnogi eraill, a gall hynny barhau gydol yr erlyniad.

Mewn llysoedd ynadon a chanolfannau Llysoedd y Goron mae Gwasanaeth Tystion ar gael, sef gwasanaeth a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn gan yr heddlu lleol neu'r Grŵp Cymorth i Ddioddefwyr lleol [rhif ffôn 0845 30 30 900]. Mewn rai llysoedd mae Gwasanaeth Tystion arbenigol ar gyfer Plant hefyd.

Gall aelodau'r Gwasanaeth Tystion drefnu ymweliadau ymgyfarwyddo cyn yr achos llys os bydd angen a gallant egluro'r hyn allai ddigwydd yn y llys. Ond, nid ydynt yn cael trafod manylion yr achos.

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud i gael cyfieithydd ar gael ar gyfer yr achos llys pan fydd angen hynny.

Pan fydd tyst yn mynychu llys, bydd erlynydd y CPS sy'n cyflwyno'r achos neu weithiwr achosion penodol y CPS yn eu cyflwyno eu hunain ac ateb unrhyw ymholiadau cyffredinol fydd gan y tyst. Ni fyddant yn cael trafod manylion yr achos gyda'r tyst.

Weithiau, gall y sawl sy'n erlyn fod yn fargyfreithiwr (cwnsler yw enw arall am fargyfreithiwr) neu'n gyfreithiwr, nad yw'n aelod o'r CPS ond a gafodd ei gyflogi gennym i gyflwyno'r achos yn y llys. Rydym yn disgwyl i bob bargyfreithiwr neu gyfreithiwr a gyflogwn fod yn gyfarwydd â'n polisïau a'n trefniadau a gweithredu'n unol â nhw.

Byddwn yn talu costau rhesymol i dyst am fynychu llys.

Os bydd yn rhaid i dystion aros, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod y rhesymau dros yr oedi a phryd yn fras y bydd angen iddynt roi tystiolaeth.

Ble bynnag y bo modd, byddwn yn ceisio sicrhau bod cyfleusterau llety ar wahân ar gyfer tystion yr erlyniad fel nad oes raid iddynt gymysgu â'r diffynnydd neu ei ffrindiau neu deulu ef neu hi, ac fel arall.

Addewid yr Erlynwyr

Mae hwn yn Addewid deg pwynt sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei dderbyn gan erlynwyr. Dylai Addewid yr Erlynwyr sicrhau y rhoddir sylw i anghenion penodol dioddefwyr a thystion; eu bod yn derbyn cymorth yn y llys i'w hatgoffa o'u datganiad ysgrifenedig neu gyfweliad ar fideo; a'u bod yn cael eu gwarchod rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad.

Fe gewch gopi o Addewid yr Erlynwyr ar ein gwefan:

http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/prosecutor_pledge.html

10 Derbyn pledion euog

Os oes tystiolaeth ar gael i brofi elfen hiliol neu grefyddol yn yr achos, byddwn yn sicrhau bod y dystiolaeth hon yn cael ei chyflwyno gerbron y llys, un ai yn ystod y treial neu pan fydd y llys yn ystyried dedfrydu.

Mae hyn yn golygu, pan gyhuddir rhywun o'r trosedd gwaethygol, **na fyddwn yn derbyn ple euog ar gyfer y trosedd sylfaenol yn unig oni bai fod rhesymau priodol dros wneud hynny**. Enghraifft o hyn fyddai achos lle nad yw'r dystiolaeth angenrheidiol ar gael bellach i brofi elfen waethygol y trosedd neu lle bo'r llys yn gwrthod caniatáu i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno.

Wrth ystyried derbyn ple ai peidio, fe fyddwn, yn unol â'n hymrwymiadau dan Ganllawiau 2005 y Twrnai Cyffredinol, yn trafod â'r dioddefwr neu â theulu'r dioddefwr ble bynnag y bo modd, er mwyn egluro'r sefyllfa a rhoi ystyriaeth i'w barn a'u buddiannau i'n helpu i wneud y penderfyniad cywir. Byddwn yn rhoi gwybod iddynt beth sy'n digwydd ac egluro ein penderfyniadau unwaith y cânt eu gwneud yn y llys.

Ni chytunir ar ble euog sy'n seiliedig ar set o ffeithiau camarweiniol neu anwir, a bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i fuddiannau'r dioddefwr.

11 Dedfrydu

Mae tystiolaeth o elfen waethygol hiliol neu grefyddol yn gwneud achos yn un mwy difrifol ac mae'n ddyletswydd ar y llys i roi ystyriaeth i hyn wrth ddedfrydu'r sawl a gyhuddir ac i wneud yn eglur ei fod wedi gwneud hynny. Ni fyddwn yn gwneud i achos ymddangos yn llai difrifol nag ydyw trwy hepgor tystiolaeth o elfen waethygol hiliol neu grefyddol. Ond, dim ond deunydd sy'n cael ei ganiatáu gan y gyfraith ac sy'n berthnasol i'r achos y gallwn ei roi gerbron llys. Byddwn yn gwneud yn siwr fod yr holl wybodaeth angenrheidiol gan y llys er mwyn iddo allu cyflawni'r ddyletswydd hon.

Ym mhob achos gerbron Llys y Goron ac mewn achosion gerbron y llysoedd ynadon lle bo'r materion yn rhai cymhleth neu lle bydd posibilrwydd y gellid esgor ar gamddealltwriaeth, byddwn yn darparu dogfen Ple a Dedfrydu sy'n disgrifio:

- ffactorau gwaethygol a lliniarol y trosedd (nid lliniaru personol);
- unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n berthnasol i'r troseddwr a'r trosedd dan ystyriaeth fel bod y barnwr yn dod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau statudol o ran dedfrydu;
- unrhyw ganllawiau perthnasol wrth ddedfrydu ac achosion sy'n cynnig canllawiau;
- nodi unrhyw ddatganiad personol dioddefwr neu wybodaeth arall sydd ar gael i adfocad yr erlyniad o ran effaith y trosedd ar y dioddefwr;

- ble bo'n briodol, unrhyw dystiolaeth o effaith y troseddu ar gymuned; ac
- arwydd, ble bo'n briodol, o fwriad i wneud cais am unrhyw orchmynion ategol, megis gorchmynion gwrthgymdeithasol a gorchmynion atafaelu, a chyn belled ag y bo modd, nodi natur y gorchymyn a geisir.

Pan fydd diffynnydd yn pledio'n euog neu'r llys yn ei gael yn euog, rhaid i'r llys benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi a gall ddewis o blith amrediad eang o gosbau. Gall y cosbau fod ar ffurf gorchmynion ailsefydlu, cosbau cymunedol, dirwyon, cosbau "rhwymol" neu gadw yn y ddalfa.

Cyn cael ei ddedfrydu, mae gan ddiffynnydd hawl i wneud ple i liniaru. Byddwn yn herio unrhyw liniaru gan yr amddiffyniad a fydd yn ymosod yn annheg ar gymeriad y dioddefwr.[3]

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog neu'r llys yn ei gael yn euog o drosedd ond yn anghytuno â'r erlyniad bod elfen waethygol ar sail hil neu grefydd y dioddefwr, neu hil neu grefydd tybiedig y dioddefwr, yn perthyn i'r trosedd, bydd yn rhaid i'r barnwr neu'r ynadon benderfynu a brofwyd y nodwedd waethygol ai peidio. Rhaid i'r erlyniad alw tystion a all roi tystiolaeth ynghylch yr elyniaeth a bydd yr amddiffyniad yn gallu eu croesholi cyn i'r llys wneud penderfyniad. Enw'r broses hon yw "gwrandawiad Newton". Ar ddiwedd y gwrandawiad rhaid i'r llys gyhoeddi a yw'n fodlon, o glywed y dystiolaeth, bod y trosedd yn un gwaethygol oherwydd gelyniaeth at hil neu grefydd y dioddefwr neu hil neu grefydd tybiedig y dioddefwr. Os felly, rhaid i'r llys ymdrin â'r trosedd mewn modd mwy difrifol wrth benderfynu ar ddedfryd.

[3] Addewid yr Erlynwyr: "Diogelu dioddefwyr rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad a gall ofyn i'r llys ymyrryd pan ystyrir y croesholi yn amhriodol neu'n ormesol."

Byddwn yn rhoi gwybodaeth i'r llys i'w helpu i benderfynu a fydd yn gwneud unrhyw orchmynion y mae ganddo'r grym i'w gwneud yn ychwanegol at y brif ddedfryd.[4] Mae hyn yn cynnwys gwneud gorchmynion mewn achosion priodol am iawndal ar gyfer colled, niwed neu ddifrod.[5]

Ym mhob achos, mater i'r ynadon neu'r barnwr yn unig yw penderfynu ar y ddedfryd. Ar gyfer nifer gyfyngedig o droseddau (a phan ddedfrydir y diffynnydd yn Llys y Goron yn unig) y mae gennym hawl i ofyn i'r Twrnai Cyffredinol herio dedfryd, os credwn ei bod yn rhy drugarog. Dedfryd rhy drugarog yw dedfryd: *'ble mae'n disgyn y tu allan i ystod y dedfrydau y gallai'r barnwr, gan roi ei feddwl ar yr holl ffactorau perthnasol, yn rhesymol eu hystyried yn briodol'*. Fe all unrhyw un, gan gynnwys y dioddefwr ei hun neu deulu'r dioddefwr, ddwyn y ddedfryd i sylw'r Twrnai Cyffredinol os byddant yn ei hystyried yn rhy drugarog. Mae yna, fodd bynnag, gyfyngiad amser llym o 28 diwrnod (o'r dyddiad dedfrydu) ar gyfer apêl gan y Twrnai Cyffredinol i'r Llys Apêl.

Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr

Datganiad Personol gan Ddioddefwr yw datganiad a wneir gan rywun a ddioddefodd yn sgil trosedd, sy'n esbonio'r effaith a gafodd y trosedd arno ef neu arni hi. Yn y datganiad gall y dioddefwyr ddisgrifio sut yr effeithiodd y trosedd arnynt. Gallant siarad am eu dymuniadau neu eu hanghenion yn ystod yr achos ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt o ganlyniad i'r trosedd, er enghraifft, ynghylch diogelwch, dychryn neu fechnïaeth. Gallant sôn am gefnogaeth (neu ddiffyg cefnogaeth) ar gyfer yr erlyniad a gofyn am gymorth gan unrhyw rai o'r asiantaethau cefnogi. Fel hyn gall y

[4] Mae'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, adran 7.12 yn datgan bod yn rhaid i'r CPS ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y dioddefwr am y ddedfryd os yw'r dioddefwr yn cael ei gyfeirio at y CPS gan yr Uned Gofal Tystion (mae hyn os na all yr Uned Gofal Tystion ateb cwestiynau'r dioddefwr).

[5] Addewid yr Erlynwyr: "Adeg euogfarn, gwneud cais am y gorchymyn priodol am iawndal, adferiad neu ddiogelwch y dioddefwr yn y dyfodol."

llys ddod i well dealltwriaeth nid yn unig o'r trosedd ond hefyd am gyd-destun y trosedd. Rhywbeth dewisol yw'r datganiad, a dylid gofyn i'r dioddefwr a yw'n dymuno gwneud datganiad o'r fath ai peidio neu a oes arno ef/hi angen help i wneud datganiad gan aelod o'r teulu neu weithiwr cefnogi. Gellir gwneud y datganiad hwn unrhyw bryd ac mae'n bosib gwneud mwy nag un datganiad. Gall dioddefwr ofyn i'r heddlu neu gyfreithydd y CPS am daflen sy'n egluro beth yw Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr, a sut gellir eu defnyddio.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth a geir mewn Datganiad Personol gan Ddioddefwr a byddwn yn dweud wrth y llys am effeithiau'r trosedd ar y dioddefwr. Gallwn ddefnyddio'r datganiadau hyn hefyd i helpu wrth wneud penderfyniadau ynghylch achosion, er enghraifft, wrth benderfynu a ddylem ofyn i'r llys wrthod mechnïaeth ai peidio neu orfodi amodau ar fechnïaeth.

12 Rhoi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd

Rydym yn deall mor bwysig yw hi i ddioddefwyr gael gwybod sut mae achos yn mynd rhagddo. Bellach mae Unedau Gofal Tystion un pwrpas yn gyfrifol am roi gwybod i ddioddefwyr a thystion am ddyddiadau gwrandawiadau llys neu ddatblygiadau pwysig eraill yn yr achos. Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob Rhanbarth y CPS sy'n cael eu rhedeg ar y cyd gan y CPS a'r heddlu. Mae'r Swyddogion Gofal Tystion yn gyswllt canolog ac yn rhoi cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pob tyst unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae'r cymorth personol hwn yn seiliedig ar asesiad anghenion a ddylai arwain at nodi unrhyw gymorth arbenigol y gallai fod ei angen ar dyst.

Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn rheoli gofal y dioddefwr o'r adeg y cyhuddir y diffynnydd hyd at y gwrandawiad terfynol.

Y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Mae'r Côd hwn yn nodi rhwymedigaethau'r CPS tuag at ddioddefwyr. Un o'r rhwymedigaethau yw dweud wrth ddioddefwr os byddwn yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i erlyn (yn dilyn adroddiad tystiolaethol llawn gan yr heddlu), neu petaem yn penderfynu gollwng achos, neu newid y cyhuddiadau yn sylweddol. Dan amgylchiadau o'r fath, byddwn yn egluro wrth ddioddefwr pam i ni wneud y penderfyniadau hyn. Fel arfer, byddwn yn gwneud hyn trwy ysgrifennu llythyr yn uniongyrchol at y dioddefwr. Dan rai

amgylchiadau, gellir delio'n gyflym iawn ag achos ac efallai na fydd hi'n bosib bob amser i ni roi'r esboniad cyn i'r achos ddod i ben. Fodd bynnag, bydd y dioddefwr yn derbyn esboniad o hyd, hyd yn oed os yw'r achos wedi dod i ben. Os yw'r dioddefwr yn agored i niwed neu ddychryn, byddwn yn rhoi gwybod iddo ef neu hi o fewn un diwrnod gwaith, ac o fewn pum niwrnod gwaith i ddioddefwyr eraill.

Mewn achosion sy'n cynnwys trosedd hiliol neu grefyddol, bydd yr erlynydd a wnaeth y penderfyniad i ollwng neu newid y cyhuddiadau yn sylweddol hefyd yn cynnig cwrdd â'r dioddefwr i esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad yn bersonol. Lle bo erlynydd wedi penderfynu peidio â chyhuddo yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb â swyddog o'r heddlu (hynny yw, heb adroddiad tystiolaethol llawn, ysgrifenedig), rhaid i swyddog yr heddlu hysbysu'r dioddefwr.

Mae copïau o'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau i'w cael gan Gangen Cyfathrebu y CPS yn 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX neu o'n gwefan:

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_code.pdf

13 Monitro trosedd hiliol a chrefyddol

Byddwn yn cofnodi'r penderfyniadau a wnawn ynghylch erlyn achosion o ddigwyddiadau hiliol neu grefyddol a hefyd ganlyniadau'r achosion a erlyniwn. Hefyd, bydd Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr yn cael gwybod yn bersonol am droseddau gwaethygol crefyddol er mwyn iddo allu mynegi ei farn ei hun am y penderfyniad i erlyn.

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar droseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol, gan roi ystadegau lleol a chenedlaethol, er 1999. Mae adroddiad blynyddol Cynllun Monitro Ddigwyddiadau Hiliol a Chrefyddol (RIMS) y CPS yn ddogfen gyhoeddus ac fe'i ceir gan ein Cangen Cyfathrebu neu oddi ar ein gwefan.

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am nifer yr achosion a anfonir atom gan yr heddlu, ein penderfyniad ynghylch erlyn ai peidio, y cyhuddiadau a erlynir neu a derfynir, canlyniad cyhuddiadau a erlynir yn y llysoedd ynadon, llysoedd ieuenctid a Llys y Goron a'r dedfrydau a roddir.

Yn 2006-07, sefydlodd y CPS Brosiect Monitro Troseddau Casineb i wella'r ffordd y mae troseddau casineb yn cael eu cofnodi'n electronig a galluogi'r CPS i adrodd yn gyhoeddus ar ddata troseddau casineb mewn adroddiad blynyddol unigol. O 2008-2009 ymlaen, bydd y CPS yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Droseddau Casineb a fydd yn cynnwys data perfformiad ar droseddau hiliol a chrefyddol (ynghyd â data perfformiad ar droseddau casineb eraill). Bydd yr

Adroddiad Blynyddol ar Droseddau Casineb hwnnw yn disodli'r adroddiad blynyddol RIMS.

Bu'r CPS yn ymgynghori'n fewnol ac allanol gydag amrywiaeth eang o bartneriaid cymunedol ynghylch pa ddata ychwanegol y dylai'r CPS ei gofnodi. Nodwyd y meysydd blaenoriaeth allweddol canlynol a dylai'r rhain gael eu cofnodi o fis Ebrill 2007:

- cofnodi crefydd neu gred pob diffynnydd a phob dioddefwr (fe sicrhawyd cytundeb Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu i ddiwygio'r ffurflenni monitro sy'n cael eu defnyddio gan heddluoedd);
- cofnodi troseddau hiliol a throseddau crefyddol ar wahân;
- cofnodi nifer yr achosion ble mae'r elfen waethygol yn cael ei gollwng; a
- chofnodi'r dedfrydau uwch ar gyfer troseddau gwaethygol.

Mae'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau wedi gosod dyletswyddau ac ymrwymiadau newydd ar y CPS. Trwy fonitro troseddau hiliol a chrefyddol a monitro canlyniadau troseddau sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, bydd o gymorth i ni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n hymrwymiadau a'n bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd i bob un sy'n dioddef trosedd.

Rydym yn y broses o sefydlu Paneli Craffu ar Droseddau Casineb i gwmpasu holl Ranbarthau'r CPS, a fydd yn craffu ar ein perfformiad wrth i ni ymdrin â throseddau casineb.

14 Ymwneud â'r gymuned

Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig gweithio gyda'r gymuned i feithrin perthynas gadarnhaol gyda grwpiau a sefydliadau lleiafrifoedd ethnig. Mae cyhoeddi'r datganiad polisi hwn yn gam pwysig tuag at gyrraedd y nod. Rydym wedi ymgynghori'n eang wrth ei baratoi a byddwn yn ei gadw dan arolwg ar ôl ei gyhoeddi. Byddwn yn rhoi'r polisi ar waith a thrwy hynny yn ceisio meithrin ymddiriedaeth cymunedau lleol yn y gwaith a wnawn a'n penderfyniadau.

Rydym eisoes yn gweithio'n lleol i sefydlu cysylltiadau â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ffydd trwy grwpiau cynrychioliadol ac unigolion. Bydd hyn o gymorth i ni egluro'r datganiad polisi a sut rydym yn disgwyl iddo weithredu yn y system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn ateb cwestiynau am y CPS a'r system cyfiawnder troseddol yn onest a heb godi disgwyliadau ffug am yr hyn y gellir ei gynnig.

15 Cwynion

Os bydd gan unrhyw un gŵyn am y ffordd y cawsant eu trin gan Wasanaeth Erlyn y Goron, neu os byddant yn teimlo bod y system cyfiawnder troseddol wedi'u siomi ac nad ydynt yn gwybod pwy sy'n gyfrifol, gallant ysgrifennu at Brif Erlynydd y Goron ar gyfer Rhanbarth y CPS ble maent yn byw. Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron bolisi cwynion, a thaflen sy'n egluro'r drefn i'w dilyn. Mae hon ar gael yn swyddfa leol y CPS.

Mae mannau cyswllt ar gyfer y CPS yn ymddangos ar glawr ôl y ddogfen hon.

16 Casgliad

Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan i ostwng troseddau hiliol a chrefyddol trwy ddod â throseddwyr gerbron llys, ond rhaid i ni gael cymorth os ydym am wneud ein gwaith yn dda. Rydym eisiau i gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau ffydd fod â hyder ynom. Gobeithio y bydd y datganiad polisi cyhoeddus hwn â'r canllawiau cyfatebol yn gam cyntaf a fydd yn cynorthwyo holl aelodau cymdeithas i ddeall yr hyn a wnawn yn well; pam rydym yn gwneud ein gwaith yn y ffordd a wnawn; a hefyd rai o'r cyfyngiadau sy'n ein hwynebu.

Rydym yn bwriadu adolygu'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd er mwyn iddo adlewyrchu'r gyfraith gyfredol a phryderon cymdeithas. Felly, byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau i'n cynorthwyo i wneud hynny.

Atodiad A

Deddfwriaeth a Ddefnyddir i Erlyn Troseddau Hiliol a Chrefyddol

1. Troseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol – Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (newidiwyd gan Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001)

Trosedd	Y Gosb Uchaf - y math gwaethygol	Y Gosb Uchaf - y math sylfaenol	Nodiadau
Clwyfo gwaethygol hiliol/crefyddol (a.29(1)(a) CDA)	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys y Goron - 5 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	
Gwir niwed corfforol gwaethygol hiliol/crefyddol (a.29(1)(b) CDA)	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys y Goron - 5 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	
Ymosod cyffredin gwaethygol hiliol/crefyddol (a.29(1)(c) CDA)	Llys y Goron - 2 flynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys ynadon - 6 mis o garchar	Gellir ei dreialu mewn llys ynadon ar ffurf sylfaenol yn unig
Difrod gwaethygol hiliol/crefyddol (a.30(1)(c) CDA)	Llys y Goron - 14 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys y Goron - 10 mlynedd o garchar Llys ynadon - 3 mis	Os yw'n werth llai na £5,000, treial trosedd sylfaenol mewn llys ynadon yn unig

Trosedd	Y Gosb Uchaf - y math gwaethygol	Y Gosb Uchaf - y math sylfaenol	Nodiadau
Ofn/cythruddo trais gwaethygol hiliol/crefyddol (a.31(1)(a) CDA)	Llys y Goron - 2 flynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys ynadon - 6 mis o garchar	Gellir ei dreialu mewn llys ynadon ar ffurf sylfaenol yn unig
Aflonyddu/dychryn /gofidio bwriadol gwaethygol hiliol/crefyddol (a.31(1)(b) CDA)	Llys y Goron - 2 flynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys ynadon - 6 mis o garchar	Gellir ei dreialu mewn llys ynadon ar ffurf sylfaenol yn unig
Aflonyddu/dychryn /gofidio gwaethygol hiliol/crefyddol (a.31(1)(c) CDA)	Llys ynadon - dirwy hyd at lefel 4	Llys ynadon - dirwy hyd at lefel 3	Treial llys ynadon yn unig, ar ffurf gwaethygol neu sylfaenol. Angen cyhuddo ar gyfer trosedd gwaethygol yn ogystal â sylfaenol.
Aflonyddu/stelcio heb drais gwaethygol hiliol/crefyddol (a.32(1)(a) CDA)	Llys y Goron - 2 flynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys ynadon - 6 mis o garchar	Gellir ei dreialu mewn llys ynadon ar ffurf sylfaenol yn unig. Gall llys roi gorchymyn atal gydag euogfarn ar gyfer trosedd gwaethygol neu sylfaenol.
Aflonyddu/stelcio gydag ofn trais gwaethygol hiliol/crefyddol (a.32(1)(b) CDA)	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Llys y Goron - 5 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	Gall llys roi gorchymyn atal gydag euogfarn ar gyfer trosedd gwaethygol neu sylfaenol.

2.Ysgogiad i gasineb hiliol – adrannau 17-29 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

Trosedd	Y Gosb Uchaf	Nodiadau
a.18 – defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol/difrïol/sarhaus neu arddangos deunydd ysgrifenedig gyda'r bwriad/sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.19 - cyhoeddi/dosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol/difrïol/ sarhaus gyda'r bwriad/sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.20 - perfformio drama'n gyhoeddus sy'n cynnwys geiriau/ymddygiad bygythiol/difrïol/sarhaus gyda'r bwriad/sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.21 - dosbarthu/dangos/ chwarae recordiad o ddelweddau gweledol neu seiniau sy'n fygythiol/difrïol/sarhaus gyda'r bwriad/sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol

Trosedd	Y Gosb Uchaf	Nodiadau
a.22 - darlledu neu gynnwys rhaglen mewn gwasanaeth rhaglen gebl sy'n cynnwys delweddau gweledol neu seiniau sy'n fygythiol/difrïol/sarhaus gyda'r bwriad/sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.23 - meddu ar ddeunydd ymfflamychol yn hiliol/deunydd i'w arddangos/dosbarthu cyhoeddiad gyda'r bwriad/sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol

3. Ysgogiad i gasineb hiliol – adrannau 29B-29G Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

Trosedd	Y Gosb Uchaf	Nodiadau
a.29B – defnyddio geiriau neu ymddygiad / arddangos deunydd ysgrifenedig gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.29C – cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.29D – perfformio drama'n gyhoeddus gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.29E – dosbarthu/dangos/ chwarae recordiad gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.29F – darlledu/cynnwys rhaglen mewn gwasanaeth rhaglen gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol
a.29G - meddu ar ddeunydd ymfflamychol gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol	Llys y Goron - 7 mlynedd o garchar Llys ynadon - 6 mis	I'w erlyn gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol yn unig. Cyfeirio at Adran Gwrthderfysgaeth y CPS i gael erlynydd arbenigol

4. Troseddau Pêl-droed – a.3 Deddf Troseddau Pêl-droed (newidiwyd gan a.9 Deddf Pêl-droed (Troseddau ac Anhrefn) 1999)

Trosedd	Y Gosb Uchaf	Nodiadau
Ymgysylltu neu gymryd rhan mewn siantio anweddus/hilyddol mewn gêm bêl-droed benodedig	Dirwy hyd at lefel 3	Gall llys roi gorchymyn gwahardd pêl-droed yn ychwanegol at unrhyw gosb arall. Torri gorchymyn gwahardd yn golygu hyd at 6 mis o garchar. Nid yw'n berthnasol i siantio crefyddol – OND D.S. Gallai troseddau eraill (megis troseddau neu ymosodiadau trefn gyhoeddus gwaethygol hiliol/crefyddol) fod yn fwy priodol

Atodiad B

Swyddogaethau'r Heddlu, y CPS a'r Llysoedd

HEDDLU	CPS	LLYSOEDD
Cymryd yr adroddiad Cymryd datganiadau gan y dioddefwr a thystion Ymchwilio i'r trosedd Casglu tystiolaeth Llunio'r achos Cynnig cymryd datganiad personol gan y dioddefwr Arestio'r sawl a gyhuddir Cyfeirio at y CPS i benderfynu ar y cyhuddiad (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) Anfon y ffeil erlyn at y CPS Cynnig i'r dioddefwyr gael ei gyfeirio at Gymorth i Ddioddefwyr Rhoi gwybod i'r dioddefwr beth sy'n digwydd yn yr achos	Rhoi cyngor i'r heddlu ynghylch tystiolaeth cyn cyhuddo. Adolygu'r ffeil Penderfynu a ddylai'r sawl a amheuir gael ei gyhuddo ac, os felly, penderfynu pa gyhuddiad(au) y dylid ei ddewis Cloriannu'r dystiolaeth Gwneud awgrymiadau i'r heddlu os oes diffyg tystiolaeth Os bydd amgylchiadau yn newid, penderfynu a ddylai cyhuddiad gael ei newid neu ei ollwng Paratoi achosion ar gyfer y llys Cyflwyno'r achos i lys ynadon neu Lys y Goron	**Llys Ieuenctid** Delio â phobl ifanc hyd at 17 oed **Llys ynadon** Delio â'r rhan fwyaf o achosion troseddol a dyma'r llys sy'n gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch mechnïaeth ym mhob achos. **Llys y Goron** Delio â'r achosion mwyaf difrifol e.e. llofruddiaeth, treisio, ac ati a rhai achosion llai difrifol ble bydd y sawl a gyhuddir yn hawlio cael treial gerbron rheithgor. Y mae'n delio hefyd ag apeliadau a cheisiadau gan y llysoedd ynadon i ddedfrydu

← Cymorth i Ddioddefwyr, Gwasanaeth Tystion a sefydliadau arbenigol eraill →

Atodiad C

Mechnïaeth

Gall llys gadw diffynnydd yn y ddalfa, neu gall ganiatáu mechnïaeth, gyda neu heb amodau. Cyn y gwrandawiad cyntaf yn y llys, gall yr heddlu hefyd gadw diffynnydd yn y ddalfa neu ganiatáu mechnïaeth, gyda neu heb amodau, ond mae pŵer yr heddlu yn fwy cyfyngedig nag eiddo'r llys.

Yr unig resymau dros osod amodau yw i sicrhau y bydd y diffynnydd yn mynychu'r gwrandawiad nesaf yn y llys, nad yw'n cyflawni troseddau newydd yn y cyfamser ac nad yw'n ymyrryd â thystion nac yn rhwystro cwrs cyfiawnder.

Enghreifftiau o amodau mechnïaeth a osodir gan y llysoedd

Gall llys osod unrhyw amod sy'n ymddangos yn briodol dan amgylchiadau'r achos penodol. Dymai rai enghreifftiau o'r amodau mechnïaeth nodweddiadol a roddir gan y llysoedd:

- *Rhaid i'r diffynnydd beidio â chysylltu, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ag unigolyn neu unigolion a enwir.*

  Mae hyn yn golygu dim cyswllt o gwbl, gan gynnwys dros y ffôn, ffacs, e-bost, neges destun neu lythyr neu drwy unigolyn arall, e.e. ni all y diffynnydd ofyn i berthynas gysylltu ar ei ran ef neu hi.

- *Rhaid i'r diffynnydd beidio â mynd i le a enwir.*

  Cyfeiriad penodol yw hwn fel arfer, ond hefyd gall fod yn stryd, tref, ardal neu hyd yn oed yn sir gyfan. Weithiau,

bydd llys yn dweud bod raid i'r diffynnydd beidio â mynd o fewn pellter penodedig i rywle, e.e. o fewn hanner milltir i gyfeiriad cartref y dioddefwr.

- *Rhaid i'r diffynnydd breswylio mewn cyfeiriad a enwir.*

  Mae hyn yn golygu byw a chysgu yno bob nos.

- *Rhaid i'r diffynnydd ei gyflwyno'i hun i swyddog yr heddlu ar ei gais pan yw'n byw mewn cyfeiriad a enwir.*

  Enw arall ar hyn yw "amod stepen drws", ac mae'n caniatáu i'r heddlu sicrhau bod unigolyn yn aros mewn cyfeiriad a nodwyd gan y llys fel amod o'r fechnïaeth, neu ei fod yn cydymffurfio ag amod cyrffyw.

- *Rhaid i'r diffynnydd ymbresenoli mewn gorsaf heddlu a enwir ar ddiwrnod neu ddiwrnodau penodol ar amser penodol.*

  Er enghraifft bob diwrnod yn ystod yr wythnos am 8.30 y bore.

- *Rhaid i'r diffynnydd gadw at gyrffyw rhwng rhai oriau penodol.*

  Mae hyn yn golygu aros gartref er enghraifft, rhwng 9pm ac 8am.

- *Rhaid i'r diffynnydd ddarparu gwarant i'r llys.*

  Os credir y gallai'r diffynnydd beidio â mynychu'r gwrandawiad nesaf yn y llys, gall y llys orchymyn bod swm penodol o arian yn cael ei dalu i'r llys. Os bydd y diffynnydd yn methu mynychu'r gwrandawiad nesaf, yna gallai'r arian gael ei golli.

- *Rhaid i'r diffynnydd ddarparu meichiau.*

  Rhaid i ffrind neu berthynas gytuno i sicrhau bod y diffynnydd yn mynychu'r llys, neu gallai'r ffrind neu'r perthynas golli swm penodol o arian.

  Weithiau, am resymau ymarferol, gallai fod eithriadau ynghlwm wrth yr amod. Er enghraifft:

- *Rhaid i'r diffynnydd beidio â mynd i fan a enwir ac eithrio:*

  – i fynychu'r llys;
  – i weld eu cyfreithiwr trwy drefniant ymlaen llaw;
  – i gasglu eiddo ar amser penodedig yng nghwmni heddwas;
  – i weld plant dan arolygiaeth ar amser penodedig.

Torri amodau mechnïaeth

Os bydd y diffynnydd yn torri amodau mechnïaeth, gall yr heddlu arestio'r diffynnydd a gall y llys gadw'r diffynnydd yn y ddalfa.

Weithiau, efallai y bydd y diffynnydd yn gofyn am i amodau'r fechnïaeth a osodwyd gael eu tynnu neu eu newid mewn rhyw ffordd. Rhaid i'r heddlu neu'r llys fod yn fodlon bod rheswm da iawn dros hyn a bydd raid ystyried y rhesymau dros osod yr amodau yn y lle cyntaf a phwyso a mesur hyn yn erbyn rhesymau'r diffynnydd dros ofyn am newid neu ddileu'r amodau.

Mae'r diffynnydd yn gyfrifol am gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir gan yr heddlu neu'r llys hyd nes y caiff ei ryddau o'r amodau hynny gan yr heddlu neu'r llys.

Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol ar gyfer pobl sy'n wynebu troseddau hiliol a chrefyddol

Sefydliadau Generig

Newham Monitoring Project (NMP)
Bu NMP yn gweithredu er 1980. Mae'n cynnig gwasanaeth argyfwng 24 awr i ddioddefwyr aflonyddwch hiliol yn Nwyrain Llundain.

Newham Monitoring Project
The Harold Road Centre
170 Harold Road
Forest Gate
Llundain
E13 0SE
Ffôn 020 8470 8333
Ffacs. 020 8470 8353
www.nmp.org.uk

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ar 1 Hydref 2007 fe unodd y tri chomisiwn cydraddoldeb yn Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd:

- Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE)
- Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC)
- Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC)

Fe gafodd gwefannau'r comisiynau hyn eu hymgorffori hefyd yng ngwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd:
www.equalityhumanrights.com

Pencadlys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Lloegr
3 More London

Riverside
Tooley Street
Llundain SE1 2RG
Prif switsfwrdd 0845 604 6610
Llinell Destun 0845 604 6620

Cymru – Caerdydd
Prif switsfwrdd 0292 0663710
Prif linell gymorth a llinell gyngor 0845 604 8810
Llinell Destun a llinell ddwyieithog 0845 604 8820

Yr Alban
Prif switsfwrdd 0845 604 6610
Llinell Destun 0845 604 5520

Federation of Black Housing Organisations (FBHO)
FHBO yw'r corff mantell ar gyfer y sector tai i bobl dduon. Mae FBHO yn gweithio i ddileu hiliaeth ym maes tai. Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth, ymchwil a gwasanaethau hyfforddi. Mae'n cynrychioli buddiannau ei aelodau gerbron y rhai sy'n llunio polisïau tai, y llywodraeth ac eraill sy'n rheoli adnoddau tai.

1 King Edwards Road
2nd floor
Llundain
E9 7SF
020 8533 7053. www.fbho.org.uk

IMKAAN
Mae IMKAAN yn fenter hyfforddiant, ymchwil a pholisi cenedlaethol, sy'n ymroi i ddarparu cefnogaeth ac eiriolaeth i'r sector lloches arbenigol, gan gefnogi menywod a phlant o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Ffoaduriaid sy'n wynebu trais.

Mae IMKAAN yn gwneud y canlynol:

- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth adeiladu gallu i lochesau BMER arbenigol
- Cyfrannu tuag at fforymau cynllunio polisïau a gwasanaethau prif ffrwd a phrosesau ymgynghori.
- Cynnal gwaith ymchwil yn y gymuned
- Darparu fforymau hyfforddiant CPD ar gyfer adfocadau cyfreithiol

IMKAAN,
Tindlemanor, 4th floor
52-54 Featherstone Street
Llundain
EC1Y 8RT
020 7250 3933

Irish Traveller Movement in Britain
Mae'r Irish Traveller Movement (ITM) yn sefydliad polisi a 'llais' ail haen sy'n ceisio gwella cynhwysiant cymdeithasol Teithwyr Gwyddelig a herio gwahaniaethu.

Irish Traveller Movement
The Resource Centre
356 Holloway Road
N7 6PA
Ffôn: 020 7607 2002
E-bost: info@irishtraveller.org.uk
www.irishtraveller.org.uk

National Assembly Against Racism
Fforwm o sefydliadau dan arweiniad cymunedau pobl dduon sy'n ymgyrchu ar faterion yn ymwneud â pholisïau lloches a mewnfudo, trais hiliol, marwolaethau yn y ddalfa, yn erbyn hiliaeth sefydliadol, gwrthwynebu Islamoffobia, a gweithio tuag at amlddiwylliant.

28 Commercial Street
Llundain E1 6LS
020 7247 9907
www.naar.org.uk
info@naar.org.uk

The Monitoring Group
Mae'n darparu cefnogaeth gyfreithiol, moesol ac ymarferol i bobl sy'n wynebu aflonyddu hiliol.

28 Museum Street
Llundain
WC1A 1LH
020 7636 6000
Rhif argyfwng rhadffon: 0800 374 618
www.monitoring-group.co.uk
admin@monitoring-group.co.uk

Min Quan
Mae Min Quan yn gangen o The Monitoring Group sy'n rhoi cefnogaeth, addysg ac adnoddau i gymuned Tsieineaidd y Deyrnas Unedig. Yn benodol, cafodd Min Quan ei sefydlu i:

- Roi cefnogaeth gyfreithiol, foesol ac ymarferol i bobl Tsieineaidd sy'n dioddef aflonyddu hiliol, trais yn y cartref a phroblemau plismona;
- Monitro ymatebion sefydliadau ac awdurdodau ynghylch y materion hyn;

- Rhoi gwybodaeth a hyfforddiant ar y materion hyn;
- Cefnogi a chysylltu'n agos â sefydliadau eraill i ddwyn y materion hyn i sylw'r cyhoedd;
- Rhoi mwy o hyder i'r gymuned Tsieineaidd mewn gwasanaethau cyhoeddus a'r farchnad waith a gwella cydlyniant cymunedol.

Pencadlys

Min Quan
28 Museum Street
Llundain WC1A 1LH
Ffôn 020 7636 6000
Ffacs 020 7631 1193

Min Quan Manceinion
1st Floor
61 Mosley Street
Manceinion
M2 3HZ
Ffôn 0161 247 7982
Ffacs 0161 228 3096

The Monitoring Group
Min Quan Southampton
135 St. Mary Street
Southampton
SO14 1NX
Ffôn 023 8071 0138
Ffacs 023 8033 0760

Southall Black Sisters
Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth, cymorth ymarferol, cynghori a chefnogaeth i fenywod a phlant sy'n wynebu trais yn y cartref a thrais rhywiol (gan gynnwys priodas dan orfod a throseddau

anrhydedd). Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau holistig yn ceisio helpu dioddefwyr i ddianc rhag trais; camdriniaeth a delio ag amryw o broblemau cydberthnasol. Cyngor, cefnogaeth emosiynol a chymorth i fenywod Asiaidd a menywod duon.

Southall Black Sisters
21 Avenue Road
Southall
Middlesex
UB1 3BL
020 8571 9595
www.southallblacksisters.org.uk
southallblacksisters@btconnect.com

Cymorth i Ddioddefwyr
Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen genedlaethol i bobl y mae trosedd yn effeithio arnynt. Mae ein gwirfoddolwyr yn rhoi cefnogaeth gyfrinachol am ddim i helpu pobl i ddelio â'u profiadau, boed nhw'n rhoi gwybod am y trosedd ai peidio. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn rhedeg y Gwasanaeth Tystion a Llinell Gymorth hefyd. Mae'r Gwasanaeth Tystion yn helpu tystion, dioddefwyr a'u teuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl treial. Bydd gwirfoddolwyr cymwys yn rhoi cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth ymarferol ynghylch achosion llys, ymweliad â'r llys, a lle tawel i aros cyn ac yn ystod y gwrandawiad.

Gall y Llinell Gymorth roi help ymarferol a chefnogaeth emosiynol yn gyfrinachol a di-enw. 0845 30 900.
www.victimsupport.org.uk

Sefydliadau ar Sail Ffydd

Community Security Trust
Cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau yn erbyn aelodau o'r gymuned Iddewig. Mae'n cyfeirio pobl at wasanaethau cynghori Iddewig lle bo'n briodol, a gyda chaniatâd y dioddefwr.

Adran Ddigwyddiadau 020 8457 9964 a 020 8457 9999, neu ar lein trwy
www.thecst.org.uk/incidents

Forum Against Islamophobia and Racism (FAIR)
Mae FAIR yn sefydliad elusennau annibynnol a sefydlwyd i wneud pobl yn fwy ymwybodol o Islamoffobia a mynd i'r afael â rhagfarn ac arferion cysylltiedig.

PO Box 784
Richmond
Surrey
TW9 2WH

I roi gwybod am anffafriaeth Islamoffobig cysylltwch â
Fair ar: 0208 940 0100
www.fairuk.org
fair@fairuk.org

Jewish Women's Aid
Llinell gymorth sy'n cynnig help a chefnogaeth a gwasanaethau cyfeirio ar gyfer Iddewesau a fu'n dioddef yn sgil trais yn y cartref.
Llinell Gymorth: 0800 591 203
Pencadlys: 020 8445 8060
www.jwa.org.uk
info@jwa.org.uk

Sefydliadau Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid

Joint Council for the Welfare of Immigrants (JCWI)
Mae JCWI yn sefydliad gwirfoddol annibynnol a chenedlaethol sy'n ymgyrchu dros gyfiawnder a mynd i'r afael â hiliaeth ym meysydd deddfau a pholisïau mewnfudo, cenedligrwydd a lloches. Mae JCWI yn darparu cyngor a gwaith achos penodol am ddim, cyrsiau hyfforddi a chyhoeddiadau.

115 Old Street
Llundain
EC1V 9RT
020 7251 8708
www.jcwi.org.uk

Refugee Action
Mae Refugee Action yn elusen genedlaethol annibynnol sy'n galluogi ffoaduriaid i greu bywydau newydd yn y Deyrnas Unedig. Maent yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol ar gyfer ceiswyr lloches newydd ac ymrwymiad tymor hir i'w setlo trwy waith datblygu cymunedol.

Pencadlys
The Old Fire Station
150 Waterloo Road
Llundain
SE1 8SB
020 7654 7700
www.refugee-action.org.uk

Cyngor Ffoaduriaid (Refugee Council)
Mae'r Cyngor Ffoaduriaid yn gweithio ledled y Deyrnas Unedig gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid

240 – 250 Ferndale Road
Brixton
Llundain
SW8 8BB
020 7346 6700
www.refugeecouncil.org.uk
info@refugeecouncil.org.uk

Llinell gyngor un-stop sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth i unigolion a sefydliadau ynghylch amryw o faterion, yn cael ei gweithredu gan gynghorwyr â phrofiad o faterion lloches a mewnfudo.

Fe gewch chi ragor o gopïau o'r daflen hon gan:

Cangen Cyfathrebu y CPS
50 Ludgate Hill
Llundain EC4M 7EX

Ffôn 020 7796 8442
Ffacs 020 7796 8030
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121